CYNGOR TREF PORTHMADOG

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 10 2022

Presennol :- Cynghorwyr : Selwyn Griffiths, Llywelyn Rhys, Llinos Murphy, Carol Hayes, Aled Griffith, Alwyn Gruffydd, Gwilym Jones, Marian Roberts (Clerc)

1.5.22 Ymddiheuriadau - Dim

2.5.22 Adroddiad y Cadeirydd
Estynwyd croeso i bob un o'r Cynghorwyr a chroeso arbennig i Llinos Murphy i'w chyfarfod cyntaf fel Cynghorydd Tref newydd dros ward Ddwyreiniol Porthmadog.
Nododd y Cadeirydd fod blwyddyn wedi hedfan ac roedd yn diolch i'r Clerc am ei chymorth gyda gwaith papur a gweinyddu yn ystod y flwyddyn. Roedd am ddiolch i'r Cyng Selwyn Griffiths am ei gyngor a'i arweiniad ynglyn â threfn cyfarfodydd a'r Rheolau Sefydlog ac roedd yn diolch i'r Cynghorwyr oedd wedi dychwelyd i'r Cyngor Tref am eu parodrwydd i gynrychioli eu wardiau unwaith yn rhagor. Dywedodd fel yr oedd wedi bod yn flwyddyn brysur wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau Cofid ac i ymdopi gyda chyfarfodydd hybrid. Roedd y Cyngor fel corff wedi ymateb i'r her o orfod dibynnu mwy ar dechnoleg yn y cyfarfodydd. Roedd tref Porthmadog wedi cael blwyddyn lwyddiannus gyda'r llu ymwelwyr oedd yn hwb i'r economi leol ond bod y prysurdeb yn dod â'i broblemau hefyd. Roedd yn siomedig yn y nifer o Gynghorwyr oedd wedi dychwelyd i'r Cyngor. Roedd yn diolch i'r Cyng Selwyn Griffiths am 18 mlynedd o wasanaeth fel Cynghorydd Sir dros Orllewin Porthmadog ac yn llongyfarch y Cyng Gwilym Jones am gael ei ethol fel olynydd iddo. Yn yr un modd diolchodd i'r Cyng Alwyn Gruffydd am 14 mlynedd o wasanaeth fel Cynghorydd Sir dros ward Tremadog ac yn llongyfarch June Jones am gael ei hethol fel olynydd iddo.

3.5.22 Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023
Etholwyd Cyng Llywelyn Rhys yn Gadeirydd am y flwyddyn 2022-2023 yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Gwilym Jones yn eilio.

4.5.22 Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023
Enwebwyd Cyng Aled Griffith fel Is-Gadeirydd yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.
Enwebwyd Cyng Selwyn Griffiths i barhau fel Is-Gadeirydd yn ôl cynnig Cyng Llinos Murphy, Cyng Aled Griffith yn eilio.
Dewisodd Cyng Aled Griffith dynnu ei enw yn ôl ac etholwyd Cyng Selwyn Griffiths yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2022-2023

5.5.22 Ethol aelodau o'r Pwyllgorau canlynol am y flwyddyn 2022/2023

Pwyllgor Cyllid / Pwyllgor Datblygu ac Eiddo
Penderfynwyd :- oherwydd prinder Cynghorwyr, gohirio'r penderfyniad tan fis Gorffennaf gan obeithio y bydd Cynghorwyr wedi cael eu cyf-ethol ym mis Mehefin yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

DRAFT

Pwyllgor Staffio :
Penderfynwyd fel a ganlyn yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

Cadeirydd y Cyngor – Cyng. Llywelyn Rhys
Is-Gadeirydd y Cyngor – Cyng. Selwyn Griffiths
Cyng Gwilym Jones

6.5.22 Ethol cynrychiolwyr ar bwyllgorau allanol am 2022/ 2023:

	Cynrychiolwyr 2021/2022
Is Bwyllgor Harbwr Porthmadog	- Cadeirydd y Cyngor Cynghorydd Llywelyn Rhys
Ymddiriedolaeth Rebecca	- - Cyng. Gwilym Jones
Y Ganolfan	- Cyng. Linda Roberts (angen 2)
Amgueddfa Forwrol Porthmadog	- Cynghorydd Bethan Rees Jones
Clwb Chwaraeon Madog	- Cynghorydd Bethan O. Rees Jones
Pwyllgor Ymgyrch Ysbyty	- Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Caru Port	- Cynghorwyr Ian Jones a Richard Williams
Pwyllgor Efeillio	- Cynghorydd Bethan O. Rees Jones
Pwyllgor Adran Dwyfor (Un Llais Cymru)	- Cynghorydd Alwyn Gruffydd - Cynghorydd Carol Hayes

Penderfynwyd :- oherwydd prinder Cynghorwyr, gohirio'r penderfyniad tan fis Gorffennaf gan obeithio y bydd Cynghorwyr wedi cael eu cyf-ethol ym mis Mehefin yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.
Penderfynwyd :- bod Cyng Selwyn Griffiths yn cynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor y Ganolfan yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Aled Griffith yn eilio.

7.5.22 Dogfennau Rheolaeth *(copïau o'r rhai presennol ynghlwm)*

Angen ystyried a derbyn y dogfennau isod yn flynyddol.

1. Rheolau Sefydlog
2. Rheolau Ariannol
3. Côd Ymddygiad
4. Archwiliad Mewnol y Cyngor
5. Asesiadau Risg
6. Cofrestr Asedau
7. Polisi Cynllunio
8. Polisi di-bapur
9. Polisi Iaith
10. Polisi Datganiadau i'r Wasg
11. Polisi Hyfforddiant

Penderfynwyd :- derbyn y dogfennau i gyd yn ôl cynnig Cyng. Selwyn Griffiths, Cyng. Gwilym Jones yn eilio.

DRAFT

Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mai 10 2022

Presennol :- Cynghorwyr : Selwyn Griffiths, Llywelyn Rhys, Llinos Murphy, Carol Hayes, Aled Griffith, Alwyn Gruffydd, Gwilym Jones, Marian Roberts (Clerc)

8.5.22 Ymddiheuriadau - Dim

9.5.22 Adroddiad y Cadeirydd.
Roedd y Cadeirydd yn falch o weld y bwrlwm yn dychwelyd i Borthmadog ers gwyliau'r Pasg ac yn croesawu datblygiadau newydd yn y dref yn enwedig gwesty Premier Inn. Roedd yn mynegi ei ddiolch i'r Cynghorwyr oedd wedi penderfynu peidio a dychwelyd i'r Cyngor ac roedd yn estyn ei gydymdeimlad ar ran y Cyngor Tref i'r Cyn-Gynghorydd Tref Nia Jeffreys yn ei phrofedigaeth o golli ei modryb a'i thad o fewn dyddiau i'w gilydd.

10.5.22 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Ebrill 12 2022
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Ebrill 26 2022
Roedd Cyng Selwyn Griffiths am nodi un cywiriad yng nghofnodion y Pwyllgor Eiddo a Datblygu, sef dileu " yr un wrth y stesion" o bwynt 6. Llochesi bws.
Yn dilyn y cywiriad cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

11.5.22 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.
Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion i'w dwyn gerbron :-

Aeth y cyfarfod yn gauedig ac atalwyd y recordio cyn trafod mater 12.5.22 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio. Gadawodd y Clerc y cyfarfod.
12.5.22 Cymeradwyo penderfyniad yr Is-Bwyllgor Cyllid parthed oriau gwaith y Clerc.
Dychwelodd y Clerc i'r cyfarfod. Aeth y cyfarfod yn agored ac ail ddechreuwyd recordio i gofnodi'r **penderfyniad** i dderbyn argymhellion yr Is-Bwyllgor Cyllid i gynyddu oriau'r Clerc i 16 awr yr wythnos yn weithredol o fis Mehefin 2022 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

13.5.22 Cyng Gwilym Jones :- cynnig cysylltu â Chyngor Gwynedd i gwyno am fainc ar lwybr Cob Crwn
Penderfynwyd :- ysgrifennu at Steffan Jones , Cyngor Gwynedd, i gwyno am gyflwr y fainc ac i ofyn i gael atgyweirio'r fainc yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

DRAFT

14.5.22 Cyng Selwyn Griffiths :- cynnig gweithredu i gyfethol aelodau newydd i'r Pwyllgor
Penderfynwyd :- gosod y Rhybuddion Cyfethol yn hysbysfwrdd y Parc, y Ganolfan, ar y wefan a gosod hysbyseb yn yr Wylan ac ar y cyfryngau cymdeithasol a nodi dyddiad cau o Fai 31 fel y caiff aelodau newydd eu cyfethol ym mis Mehefin a bod yn eu seddi erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.

15.5.22 Cyng Carol Hayes :- Cynnig ein bod yn cadw'n llymach at y rheol sydd yn llywodraethu'r nifer o weithiau y gall cynghorydd siarad, y rheol sydd yn gofyn am siaradwyr i sefyll, a rheolau perthnasol eraill sydd yn hwyluso gwaith y Clerc.
Cyfeirwyd at reol 9.7,9.8 a 9.9 o Adran 9 yn y Rheolau Sefydlog – Rheolau dadl a'r pwysigrwydd i atgoffa'r Cyngor o'r drefn.
Penderfynwyd :- y byddai'r Cadeirydd yn atgoffa pawb o'r rheolau ar ddechrau pob cyfarfod ac yn disgyblu aelodau sydd yn cam-ymddwyn mewn cyfarfodydd a'r Clerc i sicrhau bod pob aelod newydd yn darllen ac yn dilyn y rheolau yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

16.5.22 Cyng Llywelyn Rhys :- cynnig gwahodd Pwyllgor Cyhoeddi Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023 i ddefnyddio Cae Bodawen i gynnal y seremoni ar 25.6.22
Penderfynwyd :- trafod y mater gyda 26.5.22 llythyr Mai Bere yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.

17.5.22 Cyng Carol Hayes :- Cynnig cael rhywun addas i drwsio'r difrod i'r safle bws yn ymyl y rheilffordd mor gyflym a phosib.
Nodwyd nad oedd y lloches bws yn perthyn i'r Cyngor Tref ond yn eiddo i Gyngor Gwynedd.
Penderfynwyd :- ysgrifennu at Rhian Wynne Williams C.G. i ofyn iddi drefnu i rhywun ei drwsio yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Aled Griffith yn eilio.

18.5.22 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhaglen Mehefin 14 2022 = Mehefin 4 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Alwyn Gruffydd :-** Cynnig gweithredu i ddatrys yr anniddigrwydd ynglyn â'r ddarpariaeth feddygol yn ardal Porthmadog.

19.5.22 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm**).**

Cyfeiriodd Cyng Aled Griffith at y ffaith nad oes dim wedi ei wneud i sefyllfa'r tyfiant ar y Cob ers gyrru llythyr ym mis Hydref 2021 a'i ail-yrru ym mis Chwefror.
Penderfynwyd :- ysgrifennu unwaith yn rhagor i fynegi siom nad yw Cyngor Gwynedd wedi manteisio ar y ffaith fod ffordd y Cob wedi cael ei chau sawl gwaith yn ddiweddar a'u bod felly wedi colli cyfle i wneud y gwaith.
(*Deellir, ers y cyfarfod, bod Cyngor Gwynedd wrthi yr wythnos hon yn tynnu'r tyfiant o waliau'r Cob felly ni fydd llythyr yn cael ei yrru*.)

<u>Gohebiaeth :</u>

20.5.22 LLYWODRAETH CYMRU, Llunio a chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2021-22

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

21.5.22 CARYS FON WILLIAMS, Holiadur anghenion tai
Nodwyd mai hwn oedd y 5ed ymgynghoriad eleni ar y mater a pwysleiswyd y pwysigrwydd i bob aelod o'r Cyngor Tref i ymateb yn unigol i holiaduron o'r math yma**.**
Penderfynwyd :- y byddai'r Cyng Alwyn Gruffydd yn llenwi'r holiadur yn enw'r Cyngor Tref yn ôl ei gynnig ei hun.

22.5.22 ADRAN CYNLLUNIO, Ymateb i 290.2.22 Ceisiadau cynllunio Bank Place a'r Stryd Fawr
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

23.5.22 BLEDDYN RHYS, Adroddiad Archwiliad mewnol 2021-22
Roedd y Cyng Alwyn Gruffydd yn dymuno llongyfarch y Clerc am ei gwaith yn paratoi'r Archwiliad a'i llongyfarch ar ei llwyddiant.
Penderfynwyd :- cofnodi cymeradwyaeth a diolch i'r Clerc am ei gwaith yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

24.5.22 BLEDDYN RHYS, Ffurflen Flynyddol 2021-22
Penderfynwyd :- cymeradwyo a derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

25.5.22 MARTIN BELL, Ymateb i 308.3.22 Cwyno am Hwb Eifionydd
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth gyda thristwch yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio a thrafod y mater ymhellach mewn cynnig gan y Cyng Alwyn Gruffydd ar raglen mis Mehefin.

26.5.22 MAI BERE, Gwyl Gyhoeddi Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ateb y llythyr i adrodd y byddai'r Cyngor Tref yn falch o gael helpu mewn unrhyw ffordd a holi beth fedr y Cyngor Tref ei wneud i hwyluso defnyddio Cae Bodawen yn hytrach na'r Parc i gynnal y Seremoni Cyhoeddi yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Aled Griffith yn eilio.

27.5.22 Llythyr 335.4.22 Mainc Goffa Glenda Burke ac ebost COED Y DDRAIG, Ymateb i 335.4.22 Mainc Goffa Glenda Burke
Cytunwyd fod camddealltwriaeth wedi bod a bod Coed y Ddraig wedi camddehongli'r llythyr a anfonwyd atynt. Cytunwyd nad beirniadaeth o safon eu gwaith ydoedd ond yn hytrach apêl am gyngor ar sut i ofalu am bren y fainc. Nodwyd fod lleoliad y fainc o dan goeden yn anffodus gan iddo achosi mwy o wlybaniaeth sydd yn duo'r coedyn.
Penderfynwyd :- ysgrifennu'n ôl i ddiolch iddynt am eu sylwadau ac i fynegi gwerthfawrogiad o'u cyngor ar sut i ofalu am y fainc.

28.5.22 PREMIER INN, Diwrnod cymunedol
Nodwyd fod Premier Inn eisoes wedi trefnu'r diwrnod cymunedol ar Draeth Morfa Bychan gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

DRAFT

29.5.22 JOHN BOWERS, The Port
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a gyrru'r wybodaeth ymlaen i Keira Ann Sweenie o'r Adran Gynllunio ac ateb John Bowers i'w hysbysu fod ei neges wedi cael ei yrru ymlaen yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

30.5.22 HANNAH LODGE, Ymddiheuriad (Cae Pawb)
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

31.5.22 HYWYN WILLIAMS C.G., Cronfa Gyllid Partneriaeth Natur Gwynedd
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i drefnu cyfarfod er mwyn holi faint o goed fyddai ar gael ac a fyddai Cae Bodawen / y Nyrseri / Tir Model Dairy yn lleoliadau addas i blannu coed.

32.5.22 Materion Ariannol :
Derbyniadau :

CAE PAWB	Rhent 2022-2023	£ 562.50
Cyllid a Thollau ei M.	Ad-daliad TAW 2021-2022	£ 3,958.85
HSBC	Llog Banc Ebrill 2022	£ 1.44
CYNGOR GWYNEDD	Praesept – taliad cyntaf	£ 31,290.72

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Ebrill 2022	£ 55.85
2	Marian Roberts	Costau Teithio Ebrill 2022	£ 5.88
3	Marian Roberts	Cyflog Clerc Ebrill 2022	£ 650.62
4	Marian Roberts	Inc du i'r printer	£ 17.49
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Ebrill 2022	£ 162.66
6	Marian Roberts	Lwfans Blynyddol rhedeg swyddfa	£ 300.00
7	Y Ganolfan	Cyfarfod Ebrill 12 2022	£ 40.00
8	BHIB	Yswiriant 2022-2023	£ 1,780.72
9	Marian Roberts	Ad-daliad tanysgrifiad blynyddol Microsoft Teams	£ 59.99
10	Designer Signs	Arwydd Cae Bodawen	£ 372.00
11	Ashley Hughes	Papur llungopïo	£ 82.76
12	Cymru 1 Ltd	Cynnal gwefan y Cyngor Tref 2022-2023	£ 508.80
13	Alan G Jones	Gwaith atgyweirio Cae Bodawen	£ 384.00

(Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

33.5.22 Cyfrifon 2021-2022

Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol, ffurflen flynyddol 2021-2022 (copi ymghlwm)

Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol wedi ei chymeradwyo a'i derbyn yn 23.5.22.

DRAFT

34.5.22 Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais .: C22/0315/44/DT (wedi ebostio 20.4.22)
Lleoliad: 14 Stryd Wesla, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9DS
Bwriad: Creu mynedfa i ffordd a darpariaeth parcio

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad.

(b) Rhif Cais / Application No.: C22/0377/44/LL (wedi ebostio 27.4.22)
Lleoliad : Bistro Yr Hen Fecws, Yr Hen Fecws Bistro, 16 Stryd Lombard, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AP
Bwriad : Addasiadau mewnol, ffenestr gromen newydd, estyniadau cefn i greu ystafelloedd ychwanegol Gwely a Brecwast a gwelliannau i'r gegin a'r ardal fwyta

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad.

(c) Rhif Cais / Application No.: C22/0378/44/DT (wedi ebostio 27.4.22)
Lleoliad : 16 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE
Bwriad : Dymchwel estyniad presennol ac adeiladu estyniad newydd unllawr yn ei le

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30

Marian Roberts
13.5.22

DRAFT